# Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Sir Gâr 2018-2023

## Yr Adroddiad Blynyddol Cyntaf

MEHEFIN 2019



Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

SIR GÂR • CARMARTHENSHIRE

Public Services Board




01 Rhagair

02 Cynllun Llesiant y BGC

03 Strwythur y BGC

04 Gweithio Rhanbarthol

06 Pum Ffordd o Weithio

09 Amcan Llesiant y BGC - Arferion Iach

10 Amcan Llesiant y BGC - Ymyrraeth Gynnar ac Atal

12 Amcan Llesiant y BGC - Cysylltiadau Cryf

13 Amcan Llesiant y BGC - Pobl a Lleoedd Ffyniannus

15 Partneriaeth Cymunedau Mwy Diogel

17 Meysydd i'w datblygu dros y flwyddyn sydd i ddod

# Rhagair

**Mae'n bleser gennyf gyflwyno adroddiad blynyddol cyntaf Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Sir Gaerfyrddin ar ôl cyhoeddi ein Cynllun Llesiant ar 4 Mai 2018.**

Sefydlwyd BGC Sir Gâr ym mis Mai 2016, gan ddwyn ynghyd uwch-gynrychiolwyr o nifer o sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus i'n preswylwyr. Ein gweledigaeth yw gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol preswylwyr y sir drwy gydweithio i ychwanegu gwerth at wasanaethau ein gilydd, yn ogystal â datblygu dulliau arloesol er mwyn bodloni anghenion ein cymunedau.

Rydym wedi bod yn cydweithio dros y flwyddyn ddiwethaf i sicrhau bod gennym y strwythur cywir ar waith a bod y partneriaid cywir yn cyfranogi er mwyn cyflawni ein Cynllun Llesiant. Mae ein Grwpiau Cyflawni newydd wedi nodi camau allweddol i ganolbwyntio arnynt er mwyn symud y gwaith ar y cyd yn ei flaen, gan ystyried sut y gallwn wneud pethau'n wahanol gyda'n gilydd. Bydd hyn yn cynnwys meithrin perthynas a'r cymunedau lleol.

Fel partneriaid BGC rydym i gyd wedi ymrwymo i gyflawni ein cyfrifoldebau i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol pobl Sir Gâr gan barchu natur amrywiol ein cymunedau dwyieithog yn llawn. Mae hyrwyddo a datblygu'r defnydd o'r Gymraeg yn ganolog i'n ffordd o weithio a byddwn yn sicrhau bod ein holl weithgareddau yn cyfrannu at gynyddu ymhellach nifer y siaradwyr Cymraeg yn Sir Gâr a chyrraedd targed Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050.

Rwyf yn llawn cyffro ynghylch yr hyn rydym yn dechrau ei gyflawni a gwn fod holl bartneriaid y BGC yn parhau i fod yn ymrwymedig i gydweithio er mwyn gwneud gwahaniaeth go iawn i fywydau ein preswylwyr.

**Barry Liles, Cadeirydd y BGC a**
*Dirprwy Is-Ganghellor (Sgiliau a Dysgu Gydol Oes), Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant*





# Cynllun Llesiant y BGC

**Mae'r Cynllun yn amlinellu sut y bydd partneriaid y BGC yn cydweithio i fynd i'r afael â rhai o'r materion allweddol sy'n effeithio ar lesiant dinasyddion a chymunedau'r Sir.**

**Dyma'r partneriaid:**

Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant University of Wales Trinity Saint David

GIG Cymru NHS Wales Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda University Health Board

CGGSG ~ CAVS

Heddlu Police Dyfed-Powys

Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru Mid and West Wales Fire and Rescue Service

Llywodraeth Cymru Welsh Government

Cyfoeth Naturiol Cymru Natural Resources Wales

National Probation Service

Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog Brecon Beacons National Park

Department for Work & Pensions

colegsirgâr

Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru Wales Community Rehabilitation Company Prawf Probation Gweithredir gan / Operated by Working Links

Mae'r Cynllun yn canolbwyntio ar gyflawni'r pedwar amcan llesiant a nodwyd yn sgil ymgysylltu helaeth â staff rheng flaen, preswylwyr a rhanddeiliaid allweddol eraill:

- **Arferion Iach** - Mae gan bobl ansawdd bywyd da, ac maent yn gwneud dewisiadau iach ynglŷn â'u bywydau a'u hamgylchedd.
- **Ymyrraeth Gynnar** - Sicrhau bod pobl yn cael y cymorth iawn ar yr adeg iawn; pan fydd ei angen arnynt.
- **Cysylltiadau Cryf** - Pobl, lleoedd a sefydliadau y mae cysylltiad cryf rhyngddynt, sy'n gallu addasu i newid.
- **Pobl a Lleoedd Ffyniannus** - Gwneud y gorau o gyfleoedd i bobl a lleoedd mewn rhannau trefol a gwledig o'n sir fel ei gilydd.

# Strwythur y BGC

**Cytunodd y BGC ar ei strwythur newydd ym mis Mawrth 2018 er mwyn sicrhau bod ei Gynllun yn cael ei gyflawni'n effeithiol.**


Fel rhan o hynny sefydlwyd cyfres o Grwpiau Gweithredu er mwyn gwneud cynnydd yn erbyn y camau tymor byr yn amcanion llesiant y BGC. Nodwyd Arweinydd Arbenigol, Is-gadeirydd a Swyddog Arweiniol ar gyfer pob un o'r prif Grwpiau Gweithredu - Amgylchedd Iach (Asesiad Risg Amgylcheddol), Ymyrraeth Gynnar ac Atal (Newid y Model Cyflenwi), Cysylltiadau Cryf (Asedau Cymunedol Arloesol) a Phobl a Lleoedd Llewyrchus (Addysg a Chyflogaeth/Gweithdrefnau Caffael).

Bydd strwythur y BGC yn cael ei adolygu'n rheolaidd i sicrhau ei fod yn cefnogi gwaith y Bwrdd yn y modd gorau, gan gynnwys cyflawni cynnydd yn erbyn y Cynllun Llesiant.

Ym mis Mehefin 2018, gwnaed gwaith ymgysylltu ag aelodau'r Grwpiau Gweithredu a nodwyd er mwyn sicrhau dealltwriaeth gyffredin o Gynllun y BGC a'i ddull tuag at weithredu.  Roedd pawb yn gallu cyfrannu at ddatblygu cynlluniau prosiect y grwpiau er mwyn nodi sut y byddai'r grwpiau'n cyflawni'r camau gofynnol.

Bu'r Grwpiau Gweithredu'n cyfarfod am y tro cyntaf yn ystod mis Gorffennaf-Medi 2018 ac maent wedi treulio amser yn meithrin perthynas rhwng y partneriaid, deall eu rolau a'u meysydd gorchwyl, cytuno ar feysydd blaenoriaeth a datblygu cynllun prosiect i'w gyflawni yn erbyn y Cynllun Llesiant. Gweinyddir y Grwpiau Gweithredu hyn gan Dîm Cefnogi BGC y Cyngor ac mae'r tîm hefyd yn gweithredu fel cyswllt rhwng y Grwpiau Gweithredu er mwyn nodi meysydd cydweithio posibl ac osgoi dyblygu. Mae gwybodaeth am waith y Grwpiau Gweithredu hyn wedi'i chynnwys yn yr adroddiad hwn.

Gofynnodd y BGC am adolygiad o'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol statudol, sy'n adrodd i'r BGC, er mwyn sicrhau ei bod yn parhau i fod yn addas at y diben ac i gynorthwyo â chyflawni'r Cynllun Llesiant a blaenoriaethau'r partneriaid fel y bo'n briodol. Cynhaliwyd sesiynau gweithdy ym mis Medi 2018 i adolygu rôl y grŵp 'Cymunedau Teg a Diogel' - a elwir bellach yn 'Bartneriaeth Cymunedau Mwy Diogel' - yr hyn a ddylai fod yn flaenoriaeth iddo, y strwythur sydd ei angen i gyflawni'r blaenoriaethau hynny a phwy yr oedd angen iddynt fod yn rhan ohono. Roedd yn gyfle i ystyried y defnydd gorau o adnoddau'r partneriaid, ystyried lleihau nifer y cyfarfodydd y mae angen i bobl eu mynychu, a gwella'r broses o rannu gwybodaeth a chodi ymwybyddiaeth ymhlith partneriaid am y materion a'r camau allweddol sydd i'w datblygu ymhellach.  Mae gwybodaeth am waith y Bartneriaeth hon wedi'i chynnwys yn yr adroddiad hwn.





# Gweithio Rhanbarthol

**Mae datblygiadau sylweddol wedi bod o ran gweithio rhanbarthol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae hyn wedi digwydd mewn tri maes penodol:**


**1** - rhwng swyddogion arweiniol y BGC o Sir Gâr, Ceredigion a Sir Benfro,
**2** - gyda'r tri BGC a Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Cymru,
**3** - cyd-gyfarfod rhanbarthol rhwng BGC Sir Gâr, BGC Ceredigion, BGC Sir Benfro a BGC Powys ym mis Mehefin 2018.

**Swyddogion arweiniol y BGC**
Mae'r gwaith agos gydag arweinwyr y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer Ceredigion a Sir Benfro a welwyd wrth lunio'r Asesiad Llesiant a'r Cynllun Llesiant wedi parhau. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd gan y swyddogion a dyma'r prif feysydd gwaith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf:

- cwblhau manyleb ar gyfer System Gwybodaeth Ddigidol ranbarthol arloesol. Platfform ar-lein yw hwn i helpu i asesu llesiant, perfformiad, trefniadau adrodd a chyfleoedd ymgysylltu yn y dyfodol. Bydd yn darparu dull ymatebol ac effeithiol o fonitro ac asesu data, gan sicrhau llai o ddyblygu gwaith. Byddai'r broses o gasglu'r data a dadansoddi'r data hwnnw yn cael ei gwella, byddai data allanol yn cael ei ychwanegu wrth iddo gael ei ddiweddaru a byddai'r holl ffynonellau data yn cael eu cadw gyda'i gilydd.

  Comisiynwyd y gwaith hwn ar y cyd gan y tri BGC drwy ddefnyddio cyllid rhanbarthol gan Lywodraeth Cymru.

- Cynnig llwyddiannus ar gyfer cyllid 'Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant' Llywodraeth Cymru ar gyfer prosiect peilot yn 2019/20 - 'Iechyd Gwyrdd a Mynediad Gorllewin Cymru'. Nod y prosiect gwerth £40,000 yw gwella iechyd a llesiant drwy fod yn egnïol yn yr awyr agored ac ymgysylltu â byd natur. Mae'n dwyn ynghyd bartneriaid ar draws y tair sir a bydd yn ymchwilio i'r ddarpariaeth mannau gwyrdd presennol ar gyfer cymunedau lleol, cynorthwyo darparwyr mentrau iechyd gwyrdd i hyrwyddo'r arferion gorau a gweithio'n uniongyrchol gyda'r sector iechyd, codi proffil rhagnodi cymdeithasol i 'ofal iechyd ar sail natur' a meithrin partneriaethau cryf rhwng y sector gofal iechyd a'r sector amgylcheddol. Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy fapio'r mannau gwyrdd yn unol ag anghenion y gymuned, cynnal archwiliad sgiliau a hyfforddiant a sefydlu rhwydwaith o ymarferwyr iechyd gwyrdd, sefydliadau atgyfeirio yn y sector iechyd a chyrff cyhoeddus perthnasol. Y gobaith yw y bydd y prosiect peilot yn cael ei ddefnyddio i lunio cynnig mwy ar gyfer cyllid i gyflawni gwelliannau o ran mynediad at fannau gwyrdd a hyfforddiant ar gyfer darparwyr iechyd gwyrdd.



## Cysylltiadau â Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol (BPR) Gorllewin Cymru

- Mae cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal rhwng arweinwyr BGC Sir Gâr, BGC Ceredigion a BGC Sir Benfro gyda'r Pennaeth Cydweithredu Rhanbarthol, y swyddog arweiniol ar gyfer Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Cymru er mwyn ystyried cydweithio a sicrhau bod gwaith y Byrddau'n cyd-fynd â'i gilydd. Mae gorgyffwrdd a chysylltiadau clir wedi cael eu nodi rhwng blaenoriaethau'r BGC a'r BPR, yn enwedig mewn perthynas â mynd i'r afael ag iechyd y boblogaeth. Cynhelir trafodaethau i resymoli trefniadau cyflawni, yn arbennig i ddatblygu ar y cyd brosiectau penodol a fydd yn cael cyllid Cronfa Drawsnewid Llywodraeth Cymru ac sy'n cefnogi amcanion y BGC. Mae rhai o'r meysydd penodol o weithio integredig a nodwyd a fydd yn cael eu datblygu yn 2019 yn cynnwys:

**1** - sefydlu trefniadau ymgysylltu â dinasyddion ar lefel ranbarthol a lefel leol

**2** - ystyried datblygu System Gwybodaeth Ddigidol y BGC a allai hwyluso rhannu cofnodion cleientiaid, data am y boblogaeth a'r gwasanaeth a gwybodaeth ansoddol o ymgysylltu parhaus. Mae trefniant cyllido ar y cyd yn cael ei ystyried, drwy ddefnyddio cyllid BGC rhanbarthol Llywodraeth Cymru a Chronfa Drawsnewid Llywodraeth Cymru.

- Yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2019, penderfynodd y BGC i wahodd y BPR i ymuno â'r BGC a chynnwys y BPR fel eitem sefydlog ar yr agenda.

### Y BGC Rhanbarthol

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y BGC rhanbarthol ar 25 Mehefin 2018 gan BGC Sir Benfro, a daeth cynrychiolwyr o BGC Sir Gâr, BGC Ceredigion, BGC Sir Benfro a BGC Powys. Rhoddwyd nifer o gyflwyniadau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am faterion allweddol presennol gan gynnwys Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, y Strategaeth Ranbarthol ynghylch Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, cynnig y Bwrdd Iechyd ar gyfer 'Trawsnewid Gwasanaethau Clinigol' a'r System Gwybodaeth Ddigidol arfaethedig. Roedd cyfleoedd i rwydweithio yn y cyfarfod hefyd. Bydd BGC Sir Gâr yn cynnal cyfarfod nesaf y BGC rhanbarthol ar 7 Mehefin 2019 ac mae trafodaethau'n digwydd i gynorthwyo gyda chynllunio'r digwyddiad. Cytunwyd y bydd aelodau Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Cymru ac aelodau Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Powys hefyd yn cael eu gwahodd i'r cyfarfod.

### Bargen Ddinesig

Mae'r BGC wedi cael gwybod am y cynnydd a wnaed ac mae partneriaid yn ymgysylltu fel bo angen mewn gwahanol brosiectau fel y bo'n briodol.



# Pum Ffordd o Weithio

**Mae'r BGC wedi ymgorffori'r pum ffordd o weithio yn ei gynlluniau a'i drefniadau gweithio.**

## Tymor Hir

Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen i ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd.

## Atal

Sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion.

## Integreiddio

Ystyried sut gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar bob un o'u hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.

## Cydweithio

Gallai cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) helpu'r corff i fodloni ei amcanion llesiant.

## Cynnwys Pobl

Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal maent yn ei gwasanaethu.

Mae blaendudalen ddiwygiedig wedi'i llunio ar gyfer adroddiadau i'r BGC. Mae'r templed hwn bellach yn cynnwys adrannau i awduron adroddiadau gadarnhau sut y mae'r pwnc/cynnig yn ystyried y Pum Ffordd o Weithio ac unrhyw gamau i'w cymryd i fynd i'r afael ag unrhyw effeithiau negyddol a nodir neu hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol. Fel rhan o ddatblygiad eu cynlluniau prosiect, mae'r Grwpiau Gweithredu yn ystyried y Pum Ffordd o Weithio ym mhopeth y maent yn ei wneud, gan eu hymgorffori yn y camau gweithredu yn eu cynlluniau. Mae hyn yn amlwg yn y Cynlluniau a'r adroddiadau cynnydd a ddarperir yn rheolaidd i'r BGC fel y'u nodir yn yr Adroddiad Blynyddol hwn. Amlinellir rhai enghreifftiau isod:

Gweithredir dull hirdymor i newid ymddygiad a diwylliant y sefydliadau a'r gymuned. Mae hyn yn amlwg yng ngwaith y Grŵp Gweithredu o ran newid yn yr hinsawdd a'i fentrau Ymyrraeth Gynnar ac Atal. Mae amcanion hirdymor wedi cael eu nodi ar gyfer pob un o'r Amcanion Llesiant:

- **Arferion Iach** - dinasyddion Sir Gâr yn mynd ati i ymgysylltu â'u hiechyd, a chan eu bod wedi ymgysylltu'n well â byd natur, mae ganddynt lesiant gwell, lefelau straen is ac ymagweddau ac ymddygiadau mwy cynaliadwy.
- **Ymyrraeth Gynnar** - Bydd cydweithio gwell yn y gwasanaethau'n sicrhau bod pobl yn cael y cymorth cywir ar yr adeg gywir, pan fydd ei angen arnynt. Mae'n bosibl y bydd hyn yn annog ymatebion arloesol yn lleol a ledled y sir, megis gwasanaethau symudol neu wasanaethau sydd wedi'u lleoli yn yr un lle.
- **Cysylltiadau Cryf** - Byddwn yn dathlu Sir Gâr, a'i holl amrywiaeth, drwy hyrwyddo brogarwch, cydlyniant a goddefgarwch.
- **Pobl a Lleoedd Ffyniannus** - Bydd pobl Sir Gâr yn ffynnu'n economaidd ble bynnag y maent yn byw yn y sir.

Gellir gweld bod y camau a gynllunnir gan y Grwpiau Gweithredu yn anelu at yr amcanion hirdymor hyn.



### Atal

Dros y 18 mis diwethaf, mae BGC Sir Gâr, ynghyd â'r BGC yng Ngheredigion a Sir Benfro, wedi bod yn rhan o ddatblygu 'Strategaeth Canolbarth a Gorllewin Cymru Iachach' Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ynghyd a'r Fframwaith Iechyd a Llesiant cysylltiedig. Drwy'r ymgysylltiad hwn, mae partneriaid BGC wedi nodi eu hymrwymiad i gymryd ymagwedd ataliol ym mhopeth a wnânt. Yn Sir Gâr, mae atal yn thema greiddiol i bob grŵp gweithredu ond mae'n arbennig o amlwg yng ngwaith y Bartneriaeth Cymunedau Mwy Diogel i atal troseddu ac yng ngwaith y Grŵp Gweithredu Ymyrraeth Gynnar ac Atal ar y 1,000 diwrnod cyntaf ac ar wella iechyd a llesiant ein cymunedau.



### Integreiddio

Dangosir hyn yn y gwaith a amlinellwyd yn flaenorol i nodi cyfleoedd cydweithio rhwng y BGC a'r BPR mewn perthynas â blaenoriaethau ar y cyd. Mae llawer o'r cyfleoedd hyn yn ymwneud â blaenoriaeth y BPR - Pobl Gysylltiedig, Cymunedau Caredig a'r camau a nodwyd yng nghynllun gweithredu'r Grŵp Gweithredu Ymyrraeth Gynnar ac Atal. Mae'r camau gweithredu perthnasol yn cynnwys gwaith yn ymwneud â mentrau presennol megis y rôl cysylltydd cymunedau, 'Mae Sir Gaerfyrddin yn Garedig' a Dewis, y wefan sy'n darparu gwybodaeth am lesiant yng Nghymru, sefydliadau a gwasanaethau lleol.

Wrth i waith y Grwpiau Gweithredu ddatblygu, bydd pob ymdrech yn cael ei gwneud i sicrhau cysylltiadau â'r Amcanion Llesiant sefydliadol fel y bo'n briodol. Mae gwaith y Grŵp Gweithredu Ymyrraeth Gynnar ac Atal ar ymagwedd seiliedig ar leoedd tuag at lesiant yn dwyn ynghyd ystod o ymyriadau newydd a phresennol i ddefnyddio dull cydlynol a chysylltiedig gan bartneriaid mewn ardal a dargedir yn Llanelli.



### Cydweithio

Mae llawer o enghreifftiau o hyn i'w gweld yn yr adroddiadau cynnydd gan y Grwpiau Gweithredu a amlinellir isod ac mae gwaith rhanbarthol yn arferol i'r Grŵp Amgylchedd Iach. Mae dulliau partneriaeth yn cael eu datblygu megis 'Gwneud i Bob Cysylltiad Gyfrif' a'r defnydd o hyfforddiant amlasiantaeth ar gyfer amrywiaeth o bynciau.

Mae gwaith hefyd wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn i ddatblygu ymhellach y cydweithio â'r saith Cyngor Tref a Chymuned yn Sir Gâr, sy'n ddarostyngedig i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae Tîm Cefnogi y BGC wedi gweithio gyda Chlercod a Swyddogion Datblygu y cynghorau hynny (Tref Llanelli; Llanelli Wledig; Pen-bre a Phorth Tywyn; Llanedi; Llannon; Cwmaman a Chaerfyrddin) i lunio templed adrodd y bydd pob un o'r Cynghorau'n ei gyflwyno i'r BGC am y tro cyntaf ym mis Gorffennaf 2019 fel rhan o ofynion y Ddeddf. Mae'r trafodaethau hyd yn hyn wedi arwain at ragor o gydweithio mewn prosiectau a mentrau a arweinir yn lleol a'r gobaith yw y bydd hyn yn datblygu ymhellach wrth i'r cysylltiadau hyn ymsefydlu ymhellach.



### Cynnwys Pobl

Mae cynnwys cymunedau lleol wrth wraidd y gwaith a wneir gan y Grwpiau Gweithredu. Gwelir hyn yng ngwaith arolwg y Grŵp Amgylchedd Iach mewn perthynas â'r Asesiad Tywydd Garw i gael barn y cyhoedd ynghylch blaenoriaethau'r dyfodol a chasglu eu profiadau lleol o dywydd garw. Mae hefyd yn amlwg yn benodol yn y dull seiliedig ar leoedd a gynllunnir gan y Grŵp Gweithredu Ymyrraeth Gynnar ac Atal tuag at lesiant mewn ardal yn Llanelli. Bydd cymunedau lleol yn cael eu cynnwys yn y gwaith sy'n ceisio ymgorffori dull o newid ymddygiad, gan greu cyfleoedd yn uniongyrchol a'r isadeiledd cysylltiedig. Bydd cymunedau lleol yn cael eu hannog i gyd-gyfrannu at y profiad o'r gwasanaeth yn unol â'u hanghenion.

Cydnabyddir bod angen gwneud mwy i ddatblygu ymhellach ddulliau o gynnwys pobl ac ymgysylltu â hwy ac mae'r BGC yn gweithio gyda'r BPR, BGC Ceredigion a BGC Sir Benfro i ystyried datblygu dull sector cyhoeddus o ymgysylltu â dinasyddion.




**Adroddiad o'r Camau a Gymerwyd a'r Cynnydd a Wnaed**
Rhoddodd y BGC y dasg i'w grwpiau Gweithredu o symud nifer o fentrau yn eu blaenau, yn dilyn trafodaeth neu gyflwyniadau yn ei gyfarfodydd. Mae enghreifftiau o fentrau o'r fath wedi cynnwys y canlynol:

Mae'r Grŵp Gweithredu Ymyrraeth Gynnar ac Atal yn gwneud gwaith ar y **Cynllun Cydweithredol 1,000 Diwrnod Cyntaf** ochr yn ochr â phrosiect braenaru Llywodraeth Cymru ar **Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar**, prosiect peilot '**Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif**', sy'n defnyddio'r rhyngweithiadau dyddiol y mae staff rheng flaen yn eu cael â'r cyhoedd er mwyn hyrwyddo ystod o negeseuon gan bartneriaid er mwyn cefnogi newidiadau cadarnhaol i lesiant, cais amlasiantaeth i'r **Gronfa Byw'n Iach ac Egnïol** sydd wedi symud ymlaen i'r ail gam a phrosiect **Camau Cynnar gyda'n Gilydd** Heddlu Dyfed-Powys ar 'Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod' i drawsnewid y ffordd y mae asiantaethau'n ymdrin â phobl sy'n agored i niwed drwy ddefnyddio dull amlasiantaeth.

Y Grŵp Gweithredu Cysylltiadau Cryf - Yn dilyn diweddariad yng nghyfarfod y BGC ym mis Mai 2018 ynghylch Grŵp Rhanbarthol Cydweithredu ar Asedau Canolbarth a Gorllewin Cymru newydd, diddymwyd grŵp ffrwd gwaith asedau'r BGC ac mae'r grŵp gweithredu bellach yn gwneud gwaith ynghylch asedau cymunedau a phartneriaid yn lleol. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys cwblhau cyfleuster ar-lein i chwilio am ystafell gyfarfod sydd ar gael i gymunedau lleol ei defnyddio. Ceir rhagor o fanylion isod yn niweddariad cynnydd y grŵp.

Mae'r Grŵp Gweithredu Pobl a Lleoedd Llewyrchus yn datblygu'r cynnig **Cynyddu Cyfoeth Cymunedau**, gan ystyried ffyrdd y gellir defnyddio cyfoeth cymunedol er mwyn gwella'r economi leol, sydd hefyd yn cysylltu â'r gwaith sy'n edrych ar ddatblygu dulliau newydd o **gaffael bwyd lleol** ar gyfer partneriaid y BGC, gan ddwyn ynghyd aelodau'r BGC ac arweinwyr caffael.

Ymhelaethir isod ar y cynnydd a wnaed gan y Grwpiau Gweithredu ar eu cynlluniau prosiect.

# Amcan Llesiant y BGC - Arferion Iach

**‘Mae gan bobl ansawdd bywyd da, ac maent yn gwneud dewisiadau iach ynglŷn â'u bywydau a'u hamgylchedd.’**

**Camau i'w cymryd yn y tymor byr** - Cynnal Asesiad Risg Amgylcheddol a Newid yn yr Hinsawdd ar gyfer Sir Gâr er mwyn datblygu camau clir a diffiniedig y gall unigolion, cymunedau a sefydliadau eu cymryd.

| Camau i'w cymryd sy'n cyfrannu at yr Amcan Llesiant | Y cynnydd a wnaed |
|---|---|
| Cynnal Asesiad Risg Amgylcheddol a Newid yn yr Hinsawdd | Mae'r Grŵp Gweithredu wedi canolbwyntio ar yr elfen newid yn yr hinsawdd o'r amcan eleni oherwydd yr holl waith y mae'n ei gynnwys. Mae gwybodaeth berthnasol ac ymchwil blaenorol sydd gan bartneriaid wedi'u goladu i gyfrannu at y gwaith hwn.<br><br>Sefydlwyd Grŵp Rhanbarthol Newid yn yr Hinsawdd yn unol â gofyniad cyffredin gan BGC Sir Gâr, BGC Sir Benfro, a BGC Ceredigion i lunio asesiad risg Newid yn yr Hinsawdd. Mae arweinwyr y gweithgorau ar gyfer y tair sir wedi cyfarfod yn rheolaidd dros y flwyddyn ddiwethaf i gydweithio, rhannu gwybodaeth a symud y gwaith hwn yn ei flaen mewn modd cydlynol.<br><br>Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) wedi cyllido gwaith ymgynghoriaeth i gynnal Asesiad Tywydd Garw ar gyfer y tair sir, gan ddwyn ynghyd gwybodaeth a ddarparwyd gan aelodau'r gweithgorau am achosion o dywydd garw a'r cymunedau sydd mewn perygl. Bydd y ddogfen ddrafft yn cael ei chyhoeddi ar ddiwedd mis Ebrill 2019, a bydd yn cynnwys y mapiau risg CNC diweddaraf ynghylch newid yn yr hinsawdd. Mae deunyddiau ymgysylltu'n cael eu llunio i alluogi'r BGC i gynnwys cymunedau er mwyn iddynt gyfrannu at brofiadau o dywydd garw yn lleol, blaenoriaethau at y dyfodol ac addasu. |
| Datblygu dull ar gyfer gweithredu asesiad risg | Datblygir hyn ar ôl i'r cam blaenorol gael ei gwblhau. |
| Llunio Rhaglen Waith / Cynllun Gweithredu | Datblygir hyn ar ôl i'r cam blaenorol gael ei gwblhau. |

Mae meysydd gwaith y BGC ar gyfer y dyfodol mewn perthynas â'r Grŵp Gweithredu hwn, yn dilyn trafodaethau yn y BGC, yn cynnwys cynllun Llywodraeth Cymru 'Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel' a phenderfyniad Cyngor Sir Caerfyrddin ar 20 Chwefror 2019 i gefnogi cynnig mewn perthynas â newid yn yr hinsawdd. Roedd y cynnig hwn yn cynnwys datganiad Argyfwng Hinsawdd, ymrwymiad i wneud y Cyngor yn awdurdod lleol di-garbon net erbyn 2030 a gweithio gyda'r BGC i ddatblygu cyfleoedd cyffrous ar gyfer cyflawni arbedion carbon.

# Amcan Llesiant y BGC - Ymyrraeth Gynnar ac Atal

**‘Sicrhau bod pobl yn cael y cymorth iawn ar yr adeg iawn; pan fydd ei angen arnynt’**

**Camau i'w cymryd yn y tymor byr** - Newid y Model Darparu: Bydd y BGC yn trawsnewid darpariaeth gwasanaethau i alluogi unigolion, teuluoedd a chymunedau i gymryd mesurau ataliol cynnar er budd eu llesiant eu hunain.

| Camau i'w cymryd sy'n cyfrannu at yr Amcan Llesiant | Y cynnydd a wnaed |
|---|---|
| Llunio fframwaith hyfforddiant a datblygiad ar y cyd ar gyfer llesiant | Mae cyfleoedd hyfforddiant a datblygiad ar draws sefydliadau partner a fydd yn ychwanegu gwerth at drefniadau cydweithio wedi cael eu nodi ac mae Cyfeillion Dementia, 'Mae Sir Gaerfyrddin yn Garedig' a Hyfforddiant Seiliedig ar Drawma wedi'u nodi fel meysydd targed cychwynnol. Mae cysylltiadau wedi'u gwneud i weithredu Rhaglen Ymyrraeth 'Camau Cynnar Gyda'n Gilydd' Profiadau Newidiol yn ystod Plentyndod a arweinir gan yr heddlu ac mae lleoedd y partneriaid wedi'u dyrannu ar gyfer y gyfres gychwynnol o sesiynau Hyfforddiant Seiliedig ar Drawma Sir Gaerfyrddin a ddechreuwyd ym mis Ebrill 2019.<br><br>Cysylltwyd â'r Hwb Cymorth Profiadau Newidiol yn ystod Plentyndod mewn perthynas â'r sesiynau hyfforddiant seiliedig ar drawma 'hyfforddi'r hyfforddwr' a fydd yn cael eu cynnal. Bydd staff yn cael eu adnabod ar draws y partneriaid i ddilyn yr hyfforddiant ac wedyn yn rhaeadru drwy haenau'r gweithlu ar draws y partneriaid.<br><br>Mae cysylltiadau wedi'u gwneud â Rhaglen Trawsnewid y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol i archwilio meysydd ar gyfer cydweithio. |
| Datblygu rhaglen Cydnerthu Cymunedol i'r Sir gyfan | Bydd ymarfer mapio o rolau datblygu cymunedol yn nodi'r capasiti presennol a lle gallwn leihau dyblygu a sicrhau'r effeithlonrwydd gorau posibl.<br><br>Mae dull cydweithredol wedi parhau wrth ddatblygu prosiect peilot 'Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif'. Mae gwerthusiad cychwynnol o'r prosiect peilot gan y grŵp llywio, sy'n cynnwys Iechyd Cyhoeddus Cymru, yr Ymddiriedaeth Ambiwlans, yr Heddlu, y Gwasanaeth Tân ac Achub a'r Cyngor, wedi arwain at benderfyniad i gyflwyno'r rhaglen hon i garfanau ychwanegol o staff allweddol. Mae'r prosiect yn defnyddio'r rhyngweithiadau dyddiol y mae staff rheng flaen yn eu cael â'r cyhoedd er mwyn hyrwyddo ystod o negeseuon gan bartneriaid i'w cynorthwyo i wneud newidiadau cadarnhaol i'w llesiant. Darparwyd hyfforddiant amlasiantaeth i staff gan bartneriaid y BGC i roi'r sgiliau iddynt i siarad â'r cyhoedd am negeseuon pwysig ychwanegol gan sefydliadau eraill a allai fod o ddefnydd iddynt, megis negeseuon am seiberdroseddu a diogelwch tân.<br><br>Mae'r broses o weithredu sesiynau gwybodaeth ac ymwybyddiaeth Dewis ar draws y gweithlu a'r gymuned yn cael ei hybu drwy'r gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymunedol o fewn y Cyngor a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ond mae angen rhagor o gapasiti er mwyn gyrru hyn yn ei flaen fel dull partneriaeth. |

| Camau i'w cymryd sy'n cyfrannu at yr Amcan Llesiant | Y cynnydd a wnaed |
| --- | --- |
| Datblygu ymagwedd tuag at lesiant sy'n seiliedig ar leoedd | Mae nifer o ymyriadau wedi'u nodi o fewn yr ardal ffocws, sef wardiau Glan-y-môr a Thŷ-isa yn ne Llanelli. Mae'r rhain yn cynnwys Parth Rhoi Plant yn Gyntaf, Rheoli Cymdogaethau ac ymarfer ymgysylltu 'Planning for Real' â'r gymuned leol, sydd bellach yn cael ei ddatblygu'n brif gynllun cymunedol.<br><br>Mae cynnig 'Byw'n Dda gyda'n Gilydd' wedi'i gyflwyno drwy'r Gronfa Byw'n Iach ac Egnïol i ddatblygu prosiect gweithgarwch corfforol a llesiant meddyliol yn ardal Glan-y-môr ac ardal Tŷ-isa. Nod hyn fydd dod ynghyd â'r holl ymyriadau gwahanol a datblygu 'ymagwedd sy'n seiliedig ar leoedd' tuag at lesiant. |
| Cynllun Cydweithredol y 1,000 Diwrnod Cyntaf | Mae trafodaethau cychwynnol wedi'u cynnal i sefydlu cynllun cydweithredol lle bydd partneriaid yn cydweithio'n well i sicrhau bod yr holl blant lleol yn elwa ar y dechrau gorau mewn bywyd. Drwy fabwysiadu dull system gyfan tuag at wella canlyniadau yn ystod y 1,000 diwrnod cyntaf ym mywyd plentyn, y nod yw lleihau anghydraddoldeb a gwella iechyd a llesiant drwy gydol ei oes.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru wedi dewis Sir Gaerfyrddin i fod yn Awdurdod Braenaru Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar. Nod y fenter yw adeiladu ar y rhaglenni blynyddoedd cynnar presennol a chreu system mwy integredig ac ymatebol sy'n blaenoriaethu anghenion unigryw pob plentyn. Bydd y Grŵp Gweithredu hwn yn gwneud y gwaith hwn a bydd adroddiadau cynnydd pellach yn cael eu hadrodd i'r BGC. |

# Amcan Llesiant y BGC - Cysylltiadau Cryf

**‘Pobl, lleoedd a sefydliadau sydd â chysylltiadau cryf rhyngddynt ac sy'n gallu addasu i newid’**

**Camau i'w cymryd yn y tymor byr** - Asedau Cymunedol Arloesol - Bydd y BGC yn gweithio'n agos gyda chymunedau ac unigolion i'w cynorthwyo i ddatblygu sgiliau a galluogi gweithredu cymunedol.  Yn sgil hyn bydd adnodd yn cael ei greu i gynnig gwybodaeth, cyngor ac arweiniad ynghylch datblygu prosiectau cymunedol; datblygu cyfleoedd i wirfoddoli a gwneud defnydd gwell o asedau cymunedol ac asedau'r sector cyhoeddus (rhwydweithiau cymdeithasol a ffisegol) er budd cymunedau.

| Camau i'w cymryd sy'n cyfrannu at yr Amcan Llesiant | Y cynnydd a wnaed |
|---|---|
| Ymgymryd ag ymarfer mapio i ddeall yn well y sefyllfa bresennol o ran gwirfoddoli | Mae arolwg mapio ynghylch gwirfoddoli wedi'i gwblhau gan bartneriaid y BGC i ganfod eu defnydd presennol o gyfleoedd gwirfoddoli, y polisïau a'r arferion sydd ar waith, a'r cymorth sydd ei angen i lunio polisïau a recriwtio gwirfoddolwyr.<br><br>Cynhaliwyd Gweithdy Darganfod Gwirfoddoli ar 30 Ebrill 2019 i adolygu'r sefyllfa bresennol o ran gwirfoddoli ar draws partneriaid y BGC ac ystyried y ffyrdd o wella'r sefyllfa neu ei hymestyn drwy nodi arferion da, bylchau a datblygu cyfleoedd gwirfoddoli ym mhob un o bartneriaid y BGC a'r ffyrdd cydweithredol o weithio rhwng y partneriaid. Bydd y camau nesaf yn cael eu nodi ar gyfer partneriaid y BGC. |
| Llunio Strategaeth Wirfoddoli ar gyfer y BGC | Datblygir hyn ar ôl cwblhau'r trafodaethau sy'n deillio o'r ymarfer mapio. |
| Nodi a rhannu arferion gorau'r cymunedau | Datblygir hyn ar ôl cwblhau'r trafodaethau sy'n deillio o'r ymarfer mapio. |
| Nodi asedau mewn cymunedau ac asedau ar eu cyfer | Mae ymarfer mapio wedi'i gynnal â sefydliadau'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector i nodi lleoliadau sy'n cynnwys ystafelloedd ar gyfer cyfarfodydd a digwyddiadau.  Mae'r wybodaeth a ddaeth i law wedi'i mapio ac mae cyfleuster 'Dod o hyd i Leoliad' wedi'i ddatblygu. Mae dolen gyswllt ar gael ar wefan y Cyngor - www.sirgar.llyw.cymru/cartref/busnes/trefnu-digwyddiadau/dod-o-hyd-i-leoliad<br>Bydd y map a'r gronfa ddata yn cael eu datblygu ymhellach i ychwanegu rhagor o fanylion gan gynnwys rhestr o'r cyfleusterau sydd ar gael ym mhob lleoliad.  Hefyd bydd cyfleuster i chwilio yn ôl capasiti yn ogystal â nifer o opsiynau eraill. |

# 🏆 Amcan Llesiant y BGC - Pobl a Lleoedd Ffyniannus

**'Gwneud y gorau o gyfleoedd i bobl a lleoedd mewn rhannau trefol a gwledig o'n sir fel ei gilydd'**

**Camau i'w cymryd yn y tymor byr:**
- Bydd y BGC yn chwilio am gyfleoedd i ailstrwythuro protocolau a gofynion caffael yn y sector cyhoeddus i gefnogi a gwella mentrau lleol posibl
- Deall yr anghenion, y disgwyliadau a'r tueddiadau o ran cyflogaeth yn Sir Gâr i sicrhau bod y cwricwlwm addysg, cymorth a hyfforddiant arall yn cyd-fynd yn well er mwyn galluogi unigolion i ddatblygu sgiliau ar gyfer bywyd. Bydd hyn yn cynnwys partneriaid y BGC yn datblygu cyfleoedd ar gyfer profiad gwaith, prentisiaethau, hyfforddiant ar lwybr carlam ac ati

| Camau i'w cymryd sy'n cyfrannu at yr Amcan Llesiant | Y cynnydd a wnaed |
|---|---|
| **Gweithdrefnau caffael** | |
| Ystyried posibiliadau ar gyfer sefydlu ffordd newydd o weithio i alluogi caffael bwyd sector cyhoeddus o ffynonellau a gynhyrchir ac a gyflenwir yn lleol gyda golwg ar gefnogi cynaliadwyedd economaidd ac amgylcheddol | Mae sesiynau wedi'u cynnal gyda phartneriaid y BGC lle'r oedd swyddogion caffael yn bresennol, ac mae'r gwaith hwn yn cael ei gefnogi gan Yr Athro Kevin Morgan o Brifysgol Caerdydd. Mae'r trefniadau presennol ar gyfer caffael bwyd o fewn sefydliadau'r BGC yn cael eu cwmpasu ac mae'r manylebau caffael yn cael eu hystyried. Mae cynnig am gyllid LEADER wedi'i gymeradwyo i ymgymryd ag ymarfer mapio er mwyn cwmpasu'r gadwyn cyflenwi bwyd bresennol a nodi bylchau a meysydd i'w datblygu. |
| Datblygu dull BGC ar gyfer gweithredu cynlluniau Cynyddu Cyfoeth Cymunedau yn Sir Gaerfyrddin. | Mae ymarfer mapio cychwynnol o weithgarwch sefydliadol presennol y BGC yn erbyn egwyddorion Cynyddu Cyfoeth Cymunedau'n cael ei gynnal. Bydd hyn yn nodi'r meysydd allweddol ar gyfer cynnydd a blaenoriaeth. Cytunwyd y bydd cynnig yn cael ei gyflwyno ar gyfer cyllid 'Economi Sylfaenol' Llywodraeth Cymru er mwyn symud y gwaith hwn yn ei flaen. |
| Datblygu dulliau ar gyfer hyrwyddo mentrau | Datblygir hyn ar ôl i'r camau blaenorol gael eu cwblhau. |
| Sefydlu dulliau newydd tuag at gydweithio | Datblygir hyn ar ôl i'r camau blaenorol gael eu cwblhau. |

| Camau i'w cymryd sy'n cyfrannu at yr Amcan Llesiant | Y cynnydd a wnaed |
|---|---|
| **Alinio Addysg a Chyflogaeth** | |
| Mapio anghenion y gweithlu yn Sir Gaerfyrddin | Mae gwaith yn cael ei wneud gyda phartneriaid, busnesau, Coleg Sir Gâr a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. Mae anghenion y gweithlu presennol wedi'u nodi a bydd gwybodaeth am y tueddiadau yn y dyfodol yn cael ei choladu. Bydd y data hwn yn llywio'r rhwystrau y mae angen eu goresgyn er mwyn alinio addysg a chyfleoedd gwaith. |
| Nodi ymatebion posibl i roi sylw i'r meysydd i'w datblygu | Mae'r defnydd o brentisiaethau gan bartneriaid a datblygiadau posibl yn cael ei archwilio'n rhanbarthol a bydd yn llywio'r Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau. Mae'r defnydd o fuddion i'r gymuned yn cael ei ystyried er mwyn sicrhau bod cyfleoedd ar gael i bobl ifanc gael eu cyflogi gan gontractwyr sy'n gwneud gwaith adeiladu. Datblygir hyn ar ôl i'r camau blaenorol gael eu cwblhau. |
| Symud i fodel seiliedig ar gymwyseddau neu fodel seiliedig ar gryfderau ar gyfer cyflogaeth ar draws y BGC i alluogi cyflogaeth amlbwrpas | Mae'r gwaith a wneir yn Sir Benfro ar gyfleoedd profiad gwaith yn cael ei ystyried i weld a oes modd datblygu model ar gyfer Sir Gâr. |

# Partneriaeth Cymunedau Mwy Diogel

**Gweledigaeth - 'Diogelu ein cymunedau gyda'n gilydd - gweithio gyda chi i gadw Sir Gâr yn ddiogel'**

| Blaenoriaethau'r Bartneriaeth sydd wedi'u nodi i gyfrannu at weledigaeth y Bartneriaeth | Y cynnydd a wnaed |
|---|---|
| Cyffuriau Dosbarth A a Llinellau Sirol | Cynhaliwyd digwyddiadau briffio amlasiantaeth ar gyfer staff ynghylch Llinellau Cyffuriau a Gwrthderfysgaeth ym mis Mawrth 2019. Daeth dros 200 o bobl i un o'r pedair sesiwn a gynhaliwyd. Roedd yr hyfforddiant yn cynnwys codi ymwybyddiaeth o sut i adrodd am bryder ac mae'r llwybrau cyfeirio hyn yn cael eu hyrwyddo ar wefan y BGC. Mae cyflwyniadau pellach i rannu'r wybodaeth â staff yn cael eu darparu ac mae mwy o gyfleoedd yn cael eu nodi.<br><br>Rhoddwyd cyflwyniad i'r Fforwm Penaethiaid ar gyfer ysgolion uwchradd i godi ymwybyddiaeth a bydd y cyflwyniad hwn hefyd yn cael ei roi i Fforwm yr ysgolion cynradd. Mae Swyddogion Cymunedol Cyswllt ag Ysgolion o'r Heddlu yn rhoi cyflwyniadau i athrawon a staff eraill mewn ysgolion cynradd ac uwchradd ledled y sir, ac mae'r rhan fwyaf o'r ysgolion uwchradd wedi cael y cyflwyniad. |
| Troseddau treisgar, gan gynnwys Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol | Mae gwybodaeth yn cael ei choladu am ganlyniad Ymgyrch y Rhuban Gwyn 2018 i roi terfyn ar drais gwrywaidd yn erbyn menywod. Mae trafodaethau'n cael eu cynnal â phartneriaid statudol a phartneriaid yn y trydydd sector ynghylch gwaith ataliol a chydweithredol i ddatblygu ymgyrch well ar gyfer 2019.<br><br>Mae cefnogaeth barhaus yn cael ei rhoi i'r Prosiect Cymorth i Oroeswyr sy'n Fenywod yng Nghaerfyrddin er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth a sicrhau bod cysylltiadau da yn cael eu gwneud. |
| Gwrthderfysgaeth | Mae gwefannau'r partneriaid bellach yn hyrwyddo sut i adrodd am bryderon ynghylch gweithgareddau terfysgol neu rywun a allai fod yn agored i ymwneud â therfysgaeth. |

| **Blaenoriaethau'r Bartneriaeth sydd wedi'u nodi i gyfrannu at weledigaeth y Bartneriaeth** | **Y cynnydd a wnaed** |
|---|---|
| Seiberdroseddu | Daeth y Bws Seiber i ganol tref Caerfyrddin am y dydd ar 19 Mawrth 2019, fel rhan o'r daith gwytnwch seiber ledled Cymru. Helpodd y Bws i godi ymwybyddiaeth o ba mor agored yw'r cyhoedd i seiberdroseddu a hyrwyddo sut i osgoi bod yn ddioddefwr. |
| Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant | Cynhaliodd Heddlu Dyfed-Powys ddiwrnod Datblygiad Proffesiynol Parhaus ym mis Mai 2019 ar gyfer ymarferwyr rheng flaen o asiantaethau partner i godi ymwybyddiaeth o gamfanteisio'n rhywiol ar blant. Mae cydweithio rhwng yr heddlu a'r asiantaethau partner yn allweddol ar gyfer mynd i'r afael â'r mater difrifol hwn. Roedd yna siaradwyr gwadd a chynhyrchiad theatr ynghylch Llinellau Cyffuriau a chamfanteisio'n rhywiol ar blant. |
| Camau trawsbynciol | Cynhaliwyd sesiwn beilot 'Ymwybyddiaeth o Ddiogelu' ym mis Chwefror ar gyfer staff safleoedd trwyddedig a staff y drysau. Trefnwyd y sesiwn gan Dîm Trwyddedu'r Cyngor a'r Heddlu ac roedd Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant, Llinellau Sirol, ac Ymgyrch y Rhuban Gwyn ymysg y materion a drafodwyd. Bydd yr hyfforddiant hwn yn cael ei gyflwyno ledled y Sir.<br><br>Mae menter gweithio mewn partneriaeth yn cael ei datblygu rhwng Timau Plismona Bro a swyddogion diogelwch cymunedol y Gwasanaeth Tân ac Achub. Bydd hyn yn gwella'r cymorth a ddarperir i'r bobl sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau. Bydd ymwybyddiaeth yn cael ei chodi o faterion megis troseddau casineb, Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant, seiberdroseddu ac Ymgyrch y Rhuban Gwyn. |

# Meysydd i'w datblygu dros y flwyddyn sydd i ddod



Integreiddio ymhellach waith y BGC a'r BPR gyda gwaith cydweithredol i resymoli'r trefniadau cyflawni a gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd i weithredu'r ddau Gynllun.



Datblygu ymhellach ymgysylltiad ystyrlon mewn amrywiaeth o ffyrdd i alluogi pobl i gymryd mwy o ran yn eu cymunedau a ffurfio gwasanaethau lleol



Datblygu gwefan a dulliau cyfathrebu'r BGC i godi ymwybyddiaeth ymysg ein cymunedau o'r gwaith partneriaeth sy'n cael ei wneud a'r camau sy'n cael eu cymryd.



Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

SIR GÂR • CARMARTHENSHIRE

Public Services Board